

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth  
Gyhoeddus

2 Chwefror 2023

Annwyl Mark,

### Ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus

Diolch i chi am ein gwahodd ni i rannu safbwyntiau ar yr ymchwiliad uchod. Diolchwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar adeg briodol i adolygu'r trefniadau ar gyfer penodiadau cyhoeddus a gwrandawiadau cyn penodi.

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cynnal gwaith craffu cyn penodi ar yr ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer dwy rôl, sef y Cyngorwr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, a Chomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddem yn ddiolchgar i'r ymgeiswyr a ffefrir yn y ddau achos, ac rydym am bwysleisio bod ein barn yn ymwneud ag egwyddorion a phroses yn gyffredinol, nid yw'n sylw ar yr unigolion dan sylw.

## Y broses bresennol

### Newidiadau i'r canllawiau

Er bod craffu cyn penodi yn ychwanegiad cymharol ddiweddar at fusnes y Senedd, mae sawl pwyllgor wedi cynnal gwrandawiadau. Mae rhai aelodau o'n Pwyllgor hefyd wedi bod yn rhan o wrandawiadau cyn penodi mewn pwyllgorau eraill ac mae ein safbwyntiau yn cael eu llywio gan y profiadau hynny hefyd.

Rydym yn credu y dylai'r trefniant y cytunwyd arno rhwng y Prif Weinidog a'r Llywydd yn y Bumed Senedd yn 2016-2020 gael ei adolygu. Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, dylid newid y cytundeb i esbonio rôl a phwrpas gwrandawiadau a gwaith craffu cyn penodi'n gliriach. Gellid cryfhau'r trefniadau presennol i feithrin mwy o ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r broses cyn penodi. Mae'n werth nodi bod canllawiau cyfatebol ar lefel San Steffan yn pwysleisio ymgysylltu cynnar â Phwyllgorau Dethol mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cytundeb sy'n benodol i Gymru. Maent yn cynnwys deialog gyda Chadeiryddion ynghylch yr amserlen a'r dull gweithredu arfaethedig cyn dechrau ymarfer recriwtio:

*The Department should consult the Chair of the select committee about the proposed selection process before a recruitment exercise begins. This includes sharing the job*



*description and person specification, a proposed outline of the timetable for the campaign and any relevant information about the proposed advertising strategy.<sup>1</sup>*

Er mwyn gwella cysondeb, byddai'n fuddiol sicrhau mwy o safoni o'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei rhoi i bwyllgorau'r Senedd fel rhan o'r broses. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o amrywiaeth a hyblygrwydd yn angenrheidiol ac yn ddymunol, ond rydym o'r farn y dylai sawl elfen megis y wybodaeth a roddir yn y papur briffio cefndirol, a sut y bydd cyflwyniadau ymgeiswyr megis datganiadau personol yn cael eu hystyried gan bwyllgorau, fod yn fwy cyson. Dylai hyn gynnwys dull safonol o gyhoeddi'r dogfennau hyn.

Dylid ystyried gweithredu Argymhelliad 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod "cynrychiolydd o'r panel recriwtio" yn briffio pwyllgorau cyn gwrandawiadau "i roi trosolwg o'r broses recriwtio, trafod yr holl ymgeiswyr ac ymateb i unrhyw gwestiynau".<sup>2</sup> Er bod hyn wedi cael ei dderbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, ein profiad ni yw nad yw hyn yn arfer sefydledig hyd yn hyn. Er mwyn cryfhau didueddrwydd a thryloywder y broses ymhellach, ac o ystyried yr ymlyniad o ran plaid a ddatganwyd gan rai ymgeiswyr sy'n cael eu dewis wedyn gan Weinidogion, credwn y dylai'r Panel Asesu Ymgynghorol (sy'n gyfrifol am benodi) bob amser ystyried argymell yr ymgeisydd a ffefrir i Weinidogion Cymru mewn achosion lle ystyrir bod mwy nag un ymgeisydd yn gymwys i gael eu penodi.

Yn y pen draw, mater i'r pwyllgor unigol yw penderfynu a ddylid cynnal gwrandawriad cyn penodi. Fodd bynnag, mae disgwyliadau'r ddau ymgeisydd a'r cyhoedd yn cael eu gosod yn rhannol o leiaf gan y rhestr o benodiadau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau. Byddai'n fuddiol, felly, pwysleisio natur ddewisol gwrandawiadau cyn penodi yn y canllawiau eu hunain. Ochr yn ochr ag ymgysylltu'n gynharach â phwyllgorau'r Senedd, yn ddefnyddiol cyn i ymarferion recriwtio gael eu cychwyn yn ffurfiol, dylai hyn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd a rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i ddarpar ymgeiswyr.

## **Paratoi ymgeiswyr**

Dylid ymchwilio'n fanylach i'r ffordd y mae darpar ymgeiswyr yn cael eu cefnogi fel rhan o'r broses, ac i'r wybodaeth a roddir i ymgeiswyr ar ddechrau'r broses ac ym mhob cam allweddol. Yn benodol, mae angen sicrhau gwell dealltwriaeth o unrhyw effaith ataliol posibl yn deillio o waith craffu cyn penodi, a'r effaith y gallai ei chael ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac o ran denu'r ystod gorau posibl o ymgeiswyr. Gallai effeithiau ataliol posibl gael eu gwrthbwyso drwy gyngor gwell a mwy amserol i ymgeiswyr ynghylch y posibilrwydd o graffu cyn penodi a chynnig addasiadau rhesymol yn rhagweithiol mewn achosion lle efallai bydd gan ymgeiswyr anghenion penodol.

## **Rhagfarn ddjarwybod**

Mae effaith niweidiol posibl y gall rhagfarn ddjarwybod ei chael ar brosesau recriwtio yn hysbys i bawb a hoffem weld mwy o gynnydd yn cael ei wneud yn yr ymdrechion i leihau hyn yng nghyd-destun penodiadau cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys dylunio cynlluniau recriwtio sy'n lleihau'r risg a rhoi hyfforddiant i staff sy'n rhan o unrhyw agwedd ar y broses. Rhaid hefyd ymgysylltu mwy â grwpiau anodd eu cyrraedd fel rhan o'r gwaith cyfathrebu a hyrwyddo a wneir ar gyfer penodiadau cyhoeddus pwysig. Yn y pen draw, dylai'r sector cyhoeddus arwain y ffordd ac mae angen i ymgeiswyr posibl weld paneli recriwtio sy'n adlewyrchu eu cymunedau a'u profiadau eu hunain - dylai hyn olygu sicrhau bod cyfansoddiad a chefnidiroedd paneli recriwtio sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru heddiw, a Chymru yfory yn well.

---

<sup>1</sup> Swyddfa'r Cabinet, '[Cabinet Office Guidance: pre-appointment scrutiny by House of Commons select committees.](#)'

<sup>2</sup> Senedd Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, '[Adroddiad gwrandawriad cyn penodi - Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru](#)' - 04 Ionawr 2022

## Cyhoeddiadau ac ymatebion y Llywodraeth

Mae cyhoeddi papurau pwyllgor sy'n berthnasol i wrandawriad cyn penodi yn gallu arwain at ddyfalu ynghylch rhinweddau'r ymgeiswyr a ffefrir, heb fod gan unigolion sydd eto i'w penodi'r gallu i ymateb. Mae angen ystyried rôl y Llywodraeth yn hyn o beth, os o gwbl. Rydym yn cwestiynu a yw'r trefniadau presennol yn gweithio'n dda neu'n rhoi digon o bwyslais ar yr angen i sicrhau tegwch i'r ymgeiswyr a ffefrir. Mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Rydym o'r farn y gellid ystyried cyhoeddi enw'r ymgeisydd a ffefrir yn ffurfiol cyn y gwrandawriad cyn penodi gyda chyhoeddiad pellach pan wneir penderfyniad terfynol ar benodiad.

Yn yr un modd, mae angen nodi'r trefniadau ar gyfer ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau cyn penodi yn gliriach mewn canllawiau, gan fod yr arfer ar hyn o bryd yn amrywio heb sail resymegol glir.

## Penodiadau cyhoeddus yn ehangach

Mae sbectrwm o safbwyntiau ynghlŷn â'r broses penodiadau cyhoeddus, a'n barn ni yw bod gan eich ymchwiliad y potensial i wneud cyfraniad pwysig at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Nid ydym yn cynnig safbwyntiau nac argymhellion pendant, ond hoffem wneud rhai sylwadau.

Roedd y ddau wrandawriad cyn penodi a gynhaliwyd gan y Pwyllgor hwn yn cynnwys rolau a grëwyd gan Ddeddfau'r Senedd, ac eto roedd y ddau benodiad yn rhannol ddibynnol o leiaf ar drefniadau a oedd yn rhagddyddio datganoli ac a luniwyd gan Weinidogion yn San Steffan. Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus - y mae ei rôl yng ngeiriau un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin wedi cael ei 'hisraddio' i fod yn un o 'gorff gwarchod heb unrhyw bwerau gorfodi' fel rhan o ddiwygiadau diweddar - yn cwmpasu Cymru a Lloegr.<sup>3</sup> Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi sefydlu eu Comisiynwyr eu hunain i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn anghysondeb sy'n haeddu ystyriaeth bellach fel rhan o'ch ymchwiliad, a byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru naill ai amddiffyn y safbwynt hwn neu gytuno i ddiwygiadau ehangach i fynd i'r afael â hyn.

### Gwahanol gategoriâu o benodiadau

Mae'r rhestr o benodiadau cyhoeddus sy'n galw am waith craffu cyn penodi yn cwmpasu gwahanol rolau a swyddogaethau. Mae'n ymddangos bod y graddau y mae dulliau amgen o ymdrin â gwahanol gategoriâu o benodiadau cyhoeddus wedi cael eu harchwilio'n systematig mewn cyd-destun datganoledig yn gyfyngedig hyd yn hyn. Yn benodol, mae rôl y Comisiynwyr yn wahanol i rôl Cadeiryddion cyrff cyhoeddus gan eu bod hefyd yn craffu ar Weinidogion Cymru ac yn eu dwyn i gyfrif am eu penderfyniadau. Rydym yn nodi bod y trefniadau ar gyfer penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel yr amlinellir yn Neddf 2019 o bosibl yn cynnig model amgen lle mae'r penodiad yn cael ei wneud gan y Senedd ei hun yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Byddem yn croesawu trafodaeth ehangach ar y materion hyn, gyda'r bwriad o wella annibyniaeth a chyfreithlondeb y rolau hyn.

---

<sup>3</sup> Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, '[Pre-Appointment Hearings: Promoting Best Practice](#),' - Tenth Report of Session 2017–19

Rydym yn gobeithio y bydd ein myfyrdodau yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor wrth iddo gynnal ei ymchwiliad ac edrychwn ymlaen at ganlyniad eich trafodaethau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J' and a long, sweeping underline.

**Jenny Rathbone AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.